



# Disgrifiad Swydd

Teitl y Swydd	Rheolwr Caffi
Yn atebol i	Rheolwr Canolfan
Cyfrifoldeb staff	Cynorthwydd Caffi/Canolfan
Lleoliad	Byd Mary Jones

## Yr hyn rydym yn ei wneud

Elusen Gristnogol ydym ni sydd ar daith i gynnig y Beibl i'r byd.

Canolfan treftadaeth genhadol yw **Byd Mary Jones** sy'n dweud stori Mary Jones a Thomas Charles tra'n rhannu effaith y llyfr y gwerthwyd fwyaf arno drwy'r byd – y Beibl – ar Gymru a thu hwnt. Mae'r ganolfan wedi'i lleoli yn Eglwys Sant Beuno, sydd wedi cael ei hailddatblygu mewn modd sensitif gan ddefnyddio deunyddiau traddodiadol. Mae'r safle wedi bod yn fan addoli Cristnogol ers mwy na 1,500 o flynyddoedd ac mae ganddo gysylltiadau cryf â'r Gymdeithas Feiblaidd Frytanaidd a Thramor helpodd y Parch. Thomas Charles ei sefydlu yn 1804. Mae Thomas Charles yn un o nifer o ffigurau nodedig sydd wedi eu claddu ym mynwent yr eglwys. Cafodd Byd Mary Jones ei agor yn swyddogol ddydd Sul, 5 Hydref 2014 gan Leta Jones, gor-or-or-wyres Thomas Charles.

Am fwy o wybodaeth, ewch i [bydmaryjonesworld.org.uk](http://bydmaryjonesworld.org.uk)

## Crynodeb o'r swydd

Bydd y Rheolwr Caffi yn yn goruchwyllo pob agwedd ar weithrediadau'r caffi. Bydd y swydd yn cynnwys paratoi bwyd a diodydd o safon uchel, gan sicrhau bod sicrhau bod y gweithdrefnau a'r polisiau EHO priodol ar waith, rheoli staff a rheoli rhestr a stoc. Byddant hefyd yn gyfrifol am baratoi bwydlen a chyflenwyr cyrchu.

Bydd y rôl hon yn cwmpasu oriau 9am i 5pm, 5 diwrnod yr wythnos. Fodd bynnag, bydd angen i'r Rheolwr fod yn hyblyg gydag oriau er mwyn hwyluso digwyddiadau arbennig ac archebion ychwanegol.

## Prif gyfrifoldebau

Paratoi bwyd blasus i gwsmeriaid a'i gyflwyno'n dda bob tro. Cadw'r caffi yn drefnus.

Mwynhau arlwygo a choginio bwyd gyda chynnyrch lleol o'r ansawdd gorau

Sicrhau bod gwaith papur priodol EHO a COSH yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol.

Gweithio ochr yn ochr â'r rheolwr canolfan i baratoi bwydlen sy'n gost-effeithiol ac yn defnyddio cyflenwyr lleol

Defnyddio Gweithdrefnau Gweithredu Safonol i gynhyrchu eitemau bwydlen o ansawdd uchel sydd wedi'u cyflwyno'n dda

Sicrhau bod paratoi bwyd a rheoli'r gegin yn cwrdd â gofynion angenrheidiol EHO

Meddu ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o alergeddau bwyd yr holl gwsmeriaid

Ymgymryd â chyfrif stoc a chofnodi data yn wythnosol  
Cadw gwastraff bwyd mor isel â phosib a chofnodi gwastraff bob wythnos  
Sicrhau bod yr holl ardaloedd paratoi bwyd yn lân bob amser fel y'u pennir gan y gyfraith a pholisi'r cwmni  
Amcangyfrif y defnydd o fwyd a ddisgwylir a threfnu paratoi  
Cymwys i weithredu offer cegin yn ddiogel megis gril, popty a phlât poeth  
Dyletswyddau cyffredinol yn y gegin a'r lle bwyta h.y. golchi llestri, rhoi offer ar waith a'i glirio, a glanhau arwynebau gwaith  
Ymdrin yn effeithiol â storio a gwaith sylfaenol paratoi bwyd a diodydd yn unol â gweithdrefnau a chanllawiau diogelwch bwyd  
Defnyddio'r holl offer cegin: oergell, microdon, popty, peiriant golchi llestri ayyb, a sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn dda ac yn cael eu gweithredu'n ddiogel bob amser  
Gweini pob math o eitemau ar y fwydlen yn effeithlon - e.e. brechdanau/tatws trwy'u crwyn/panini a diodydd - mewn modd amserol a phroffesiynol  
Glanhau'r gegin yn eang i safon hylendid bwyd  
Cwblhau pob gwaith papur gweinyddol yn gywir e.e. siartiau tymheredd, cofnodion glanhau, stoc, cofnodion gwastraff ac ati.  
Sicrhau bod pob ystafell fwyd ac offer yn cael eu cadw i safon uchel o hylendid

### **Cyffredinol**

- Cadw at bolisiau a safonau Cymdeithas y Beibl yn eich holl waith
- Cyflawni dyletswyddau achlysurol a all fod yn ofynnol er mwyn sicrhau effeithiolrwydd Byd Mary Jones
- Cymryd rhan ym mywyd corfforaethol Cymdeithas y Beibl lle bo cyfleoedd i wneud hynny

### **Pwy sydd arnom ei angen**

#### **Cymwysterau**

Lefel 3 Hylendid Bwyd  
Tystysgrif alergedd bwyd

#### **Profiad**

Profiad blaenorol o ddelio â pharatoi bwyd mewn cegin fasnachol neu leoliad lletygarwch, neu brofiad ymarferol perthnasol

Profiad blaenorol o baratoi eitemau ar fwydlen i safon uchel

Profiad profedig o drin arian, rhoi newid i gwsmeriaid a chyfrif yr arian yn y til ar ddiwedd y dydd

#### **Sgiliau**

Sgiliau rhagorol mewn ymdrin â phobl a gwasanaethu cwsmeriaid

Gallu cydweithio mewn tîm bach ond hefyd â'r cymhelliad i weithio ar eich pen eich hun

Mae'n ddymunol iawn gael rhywun sy'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg

- Gallu cadw'n brysur bob amser wrth weithio trwy restr o bethau i'w gwneud

#### **Priodweddau personol**

Bydd dyletswyddau'n gofyn am weithio yn ystod dyddiau'r wythnos, penwythnosau, gwyliau banc a digwyddiadau arbennig o bryd i'w gilydd

Gallu gweithio o fewn rheolau/canllawiau COVID-19 a safonau hylendid rhagorol

Agwedd 'hapus i helpu' gyda phawb sy'n ymweld â'r ganolfan a'r caffi

Parodrwydd i ddilyn hyfforddiant perthnasol er mwyn sicrhau gweithrediad llwyddiannus a diogel Byd Mary Jones

Meddu ar gariad at fwyd a chwsmeriaid yn mwynhau'r hyn a geir ei weini

## Diwylliant a Chymeriad

### Diwylliant

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein diwylliant unigryw, sy'n seiliedig ar ffydd Gristnogol gynhwysol a rheolaeth gadarnhaol ac sy'n ceisio meithrin y gorau yn ein pobl.

Mae arnom eisiau meithrin diwylliant sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd:

**Gweddigar** – rydym yn onest, sylwgar a gwylaidd, oherwydd rydym yn gweithio yng ngolwg Duw

**Dychmygus** - rydym yn arbrofol, creadigol a deinamig, oherwydd fe'n gwnaed ar ddelw'r Creawdwr

**Eofn** - rydym yn fodlon gweithio'n galed ac wynebu cwestiynau caled, oherwydd rydym yn ymddiried yn ein gilydd

**Medrus** – rydym yn astudio, dysgu ac ymarfer, gan wneud ein gorau i wasanaethu eraill

**Llawen** – rydym yn mwynhau ein gwaith ac yn ceisio ysbrydoli eraill, oherwydd rydym wedi cael ein gwneud i ffynnu gyda'n gilydd

### Cymeriad

Yn ogystal â chwilio am ddawn, profiad ac arbenigedd, mae gennym ddiddordeb mawr hefyd yng nghymeriad ein staff a hoffem wybod sut rydych chi'n dangos y canlynol:

**Cymeriad ar gyfer arwain** – byddwch yn hunan-ymwybodol ac yn gwybod beth sydd ei angen i gysylltu'n dda ag eraill, a fydd yn eich galluogi chi i ysbrydoli, herio a chefnogi eraill

**Cymeriad ar gyfer gwaith tîm** – byddwch yn arddangos sgiliau rhyng-bersonol cryf, teyrngarwch a pharch at gydweithwyr, a dull cydweithredol o ddatrys problemau trwy deimlad o rannu cenhadaeth a diben cyffredin

**Cymeriad ar gyfer dilyn** – byddwch yn cydnabod ein strwythur trefniadol, gweledigaeth a chenhadaeth a byddwch yn cefnogi'r rhain yn adeiladol ac yn rhagweithiol fel ein bod yn gweithredu'n effeithiol

### Cymdeithas y Beibl/Bible Society

Stonehill Green, Westlea, Swindon SN5 7DG

Elusen gofrestredig 232759

01793 418222

biblesociety.org.uk